CYNGOR BRO MORGANNWG
HYSBYSIAD O YMCHWILIAD CYHOEDDUS
DEDDF TIROEDD COMIN 2006 ADRAN 15(1) AC ADRAN 111 DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972

Rhoddir hysbysiad drwy hyn fod y Cyngor fel yr Awdurdod Cofrestru wedi penodi Arolygydd annibynnol i ystyried y cais i gofrestru llain werdd pentref neu dref ar y tir a elwir yn:

Cae Chwaraeon Sili, South Road, Sili, Bro Morgannwg

a fydd yn mynychu:

Ystafell y Bwrdd yn Swyddfa'r Dociau, Cyngor Bro Morgannwg, Heol yr Isffordd, y Barri, Bro Morgannwg ar Ddydd Llun 29, Dydd Mawrth, 30 a Dydd Mercher 31 Ionawr 2018 ac os oes angen Dydd Iau 1 Chwefror 2018 gan ddechrau bob dydd am 10.00am, i gynnal ymchwiliad lleol cyhoeddus i'r cais hwn.

Gall unrhyw berson sydd yn dymuno gweld y cais hwn ac unrhyw ddogfennau eraill yn ymwneud ag ef, wneud hynny drwy gais yn swyddfeydd Dinesig Cyngor Bro Morgannwg, Heol Holltwn, y Barri, Bro Morgannwg, CF63 4RU rhwng 9.00am a 5.00pm o Ddydd Llun i Ddydd Iau, a rhwng 9.00am i 4.30pm ar Ddydd Gwener o Ddydd Llun 18 Rhagfyr 2017 ymlaen.

Dyddiad 14 Rhagfyr 2017

Debbie Marles

Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol

Ar gyfer Cyngor Bro Morgannwg